# Y Trydydd Cynulliad – Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (239)

**Dyddiad: Dydd Mercher 19 Ionawr 2011**
**Amser: 13.30**

Enwebwyd Peter Black yn Ddirprwy Lywydd dros dro am y cyfarfod cyfan.

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Dirprwy Lywydd wedi cael ei hysbysu, o dan Reol Sefydlog 7.50, y bydd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yn ateb cwestiynau ar ran y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf.

**........................................**

### 14.15
### Eitem 2: Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

**........................................**

### 14.55
### Eitem 3: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar gynhwysiant ariannol ac effaith addysg ariannol

**NDM4631 Sandy Mewies (Delyn)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

Nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant: Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Tachwedd 2010.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Ionawr 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35.**

**........................................**

**15.46**
**Eitem 4: Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4632 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyfraniad Parciau Cenedlaethol Cymru at fywyd Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cyfran o aelodau a etholir yn uniongyrchol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu cyfrifoldebau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyda golwg ar gynnwys datblygu economaidd a chymdeithasol.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 33 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu'r cyfan ac yn ei le rhoi:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu cyfraniad Parciau Cenedlaethol Cymru at fywyd Cymru ac yn nodi'r gwaith da sy'n cael ei wneud yn unol â Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.

*Gellir dod o hyd i Ddatganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru drwy ddilyn y linc hwn:*

*http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/countrysidecoastalaccess/npwales/policystatement/?skip=1&lang=cy*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 16 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4632**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu cyfraniad Parciau Cenedlaethol Cymru at fywyd Cymru ac yn nodi'r gwaith da sy'n cael ei wneud yn unol â Datganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.

*Gellir dod o hyd i Ddatganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru drwy ddilyn y linc hwn:*

*http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/countrysidecoastalaccess/npwales/policystatement/?skip=1&lang=cy*

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 16 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**.......................................**

**16.45**
## Eitem 5: Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**NDM4633 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu ei bod yn hanfodol bod gwasanaethau'r Stryd Fawr a chanol trefi yn cael eu cefnogi gan eu bod yn darparu gwasanaethau i nifer o bobl ledled Cymru gan gynnwys gweithgareddau adloniant, hamdden a chymdeithasol a gwasanaethau adwerthu, ac yn benodol maent yn darparu gwasanaethau lleol i'r rheini na allant gael gafael ar wasanaethau ar-lein.

2. Yn credu bod Swyddfeydd Post yn chwarae rhan hanfodol o ran darparu gwasanaethau cymunedol a'u bod yn rhan allweddol o Stryd Fawr ffyniannus ac yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â chau unrhyw Swyddfeydd Post ychwanegol.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) Gwella'r amodau ar gyfer busnesau mewn canol trefi drwy ganiatáu i awdurdodau lleol adfywio ardaloedd drwy Gyllid Codi Trethi a mynnu asesiad o'r effaith ar gyfer datblygiadau ar gyrion trefi;

b) Cefnogi busnesau bach, sydd yn aml yng nghanol trefi, drwy ysgafnhau'r baich rheoleiddio sydd arnynt a chynnal adolygiad o'r bôn i'r brig o effaith ardrethi busnes ar fusnesau bach;

c) Gwella mynediad trafnidiaeth i ganol trefi a sicrhau bod gwybodaeth am y gymuned leol ar gael mewn gorsafoedd trenau a bysiau; a

d) Gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod safleoedd bws wedi'u lleoli'n hwylus a bod modd i bawb eu defnyddio.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 33 | 49 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

2. Yn credu bod Swyddfeydd Post yn chwarae rhan hanfodol o ran darparu gwasanaethau cymunedol ac yn cefnogi Cronfa Arallgyfeirio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Swyddfeydd Post sydd wedi cefnogi 229 o swyddfeydd post ers Ebrill 2009.

3. Yn croesawu gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) Gwella'r amodau ar gyfer busnesau yng nghanol trefi gan gynnwys edrych ar botensial cyflwyno Cyllid Codi Trethi i awdurdodau lleol a chadw at bolisi sy'n ystyried canol trefi'n gyntaf ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd;

b) Cefnogi busnesau bach, sydd yn aml yng nghanol trefi, drwy'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach sydd wedi arwain at dros hanner y busnesau bach yng Nghymru'n talu dim ardrethi, a thrwy greu amgylchedd busnes positif ledled Cymru drwy Raglen Adnewyddu'r Economi;

c) Hwyluso’r teithio i brif drefi ac aneddiadau, a rhyngddynt, a darparu atebion cynaliadwy ar gyfer trafnidiaeth drwy’r Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol a Rhanbarthol.

*Ceir rhagor o fanylion am Raglen Adnewyddu’r Economi drwy ddilyn y linc hwn:*

http://cymru.gov.uk/topics/businessandeconomy/help/economicrenewal/programmepapers/?skip=1&lang=cy

*Gellir dod o hyd i Gynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ddilyn y linc hwn:*

http://cymru.gov.uk/topics/transport/ntp/nationaltransportplan/?skip=1&lang=cy

*Mae'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gael drwy ddilyn y linciau canlynol:*

***Gogledd Cymru***

http://www.taith.gov.uk/

***Canolbarth Cymru***

http://www.tracc.gov.uk/index.php?id=63&L=1

***De-orllewin Cymru***

http://www.swwitch.net/page14485824.aspx

***De-ddwyrain Cymru***

http://www.sewta.gov.uk/strategy.htm

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 16 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Sir Fynwy)**

Ychwanegu is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 3:

Rhoi rhyddhad ardrethi llawn i’r busnesau lleiaf hyd at werth ardrethol o £12,000.

Gwella mynediad teithwyr anabl a'r bobl hynny a chanddynt broblemau symudedd i orsafoedd trenau a bysiau.

Gwella arwyddion o gefnffyrdd i ganol trefi.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4633**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu ei bod yn hanfodol bod gwasanaethau'r Stryd Fawr a chanol trefi yn cael eu cefnogi gan eu bod yn darparu gwasanaethau i nifer o bobl ledled Cymru gan gynnwys gweithgareddau adloniant, hamdden a chymdeithasol a gwasanaethau adwerthu, ac yn benodol maent yn darparu gwasanaethau lleol i'r rheini na allant gael gafael ar wasanaethau ar-lein.

2. Yn credu bod Swyddfeydd Post yn chwarae rhan hanfodol o ran darparu gwasanaethau cymunedol ac yn cefnogi Cronfa Arallgyfeirio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Swyddfeydd Post sydd wedi cefnogi 229 o swyddfeydd post ers Ebrill 2009.

3. Yn croesawu gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) Gwella'r amodau ar gyfer busnesau yng nghanol trefi gan gynnwys edrych ar botensial cyflwyno Cyllid Codi Trethi i awdurdodau lleol a chadw at bolisi sy'n ystyried canol trefi'n gyntaf ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd;

b) Cefnogi busnesau bach, sydd yn aml yng nghanol trefi, drwy'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach sydd wedi arwain at dros hanner y busnesau bach yng Nghymru'n talu dim ardrethi, a thrwy greu amgylchedd busnes positif ledled Cymru drwy Raglen Adnewyddu'r Economi;

c) Hwyluso'r teithio i brif drefi ac aneddiadau, a rhyngddynt, a darparu atebion cynaliadwy ar gyfer trafnidiaeth drwy'r Cynlluniau Trafnidiaeth Cenedlaethol a Rhanbarthol.

*Ceir rhagor o fanylion am Raglen Adnewyddu'r Economi drwy ddilyn y linc hwn:*

http://cymru.gov.uk/topics/businessandeconomy/help/economicrenewal/programmepapers/?skip=1&lang=cy

*Gellir dod o hyd i Gynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy ddilyn y linc hwn:*

http://cymru.gov.uk/topics/transport/ntp/nationaltransportplan/?skip=1&lang=cy

*Mae'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gael drwy ddilyn y linciau canlynol:*

***Gogledd Cymru***

http://www.taith.gov.uk/

***Canolbarth Cymru***

http://www.tracc.gov.uk/index.php?id=63&L=1

***De-orllewin Cymru***

http://www.swwitch.net/page14485824.aspx

***De-ddwyrain Cymru***

http://www.sewta.gov.uk/strategy.htm

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 6 | 10 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**......................................**

**17.53**
**Cyfnod pleidleisio**

**......................................**

**17.55**
**Eitem 6: Dadl fer a ohiriwyd ers 8 Rhagfyr 2010**

**NDM4616 Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):**
'O bydded i'r hen iaith barhau – Cymru'n Un a'r Iaith Gymraeg'

**......................................**

**18.15**
**Eitem 7: Dadl Fer**

**NDM4630 Paul Davies (Preseli Sir Benfro):**
Aberdaugleddau ac Abergwaun - Yr ardaloedd adfywio strategol newydd?

**Daeth y cyfarfod i ben am 18.34.**

**......................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mawrth 25 Ionawr 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**